adverse camber productions

# BREUDDWYDIO CAE'R NOS

## chwedl o Gymru



Cynhyrchiad **Adverse Camber**

# BREUDDWYDIO CAE'R NOS

## chwedl o Gymru

Crëwyd a pherfformiwyd gan
**Michael Harvey** Cyfarwydd
**Lynne Denman** Cantores
**Stacey Blythe** Cyfansoddwraig / Cerddor

Comisiynwyd gan Adverse Camber ar y cyd â'r Felin Uchaf, Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth

**Dau hanner sydd i'r perfformiad gydag egwyl.**


# CROESO I'R PERFFORMIAD HEDDIW A DIOLCH I CHI AM DDOD!

Y stori wreiddiol sy'n ysbrydoli'r perfformiad yma yw un o'r gweithiau llenyddiaeth cynharaf a geir ym Mhrydain. Un o bedair stori yw *Pedwaredd Gainc y Mabinogi* a ysgrifennwyd mewn Cymraeg Canol ac sydd wedi'i lleoli mewn Prydain led-chwedlonol lle mae cymeriadau a digwyddiadau'n croesi rhwng gwahanol deyrnasoedd y byd hwn a'r byd arall – gan adael marciau yn y dirwedd.

Seiliwyd y fersiynau ysgrifenedig o'r storïau hyn, a geir yn bennaf mewn dwy lawysgrif ganoloesol, *Llyfr Gwyn Rhydderch* a *Llyfr Coch Hergest*, ar draddodiadau llafar cynharach o lawer. Hyd at heddiw, mae'r storïau wedi parhau i ysbrydoli gwaith creadigol a dehongliadau newydd gan artistiaid sy'n gweithio ar draws llawer o wahanol ffurfiau ar gelfyddyd. Maent hefyd yn ysgogi dadlau a thrafodaeth – gweler rhagor drosodd ac ar ein gwefan gan yr Athro Sioned Davies.

Er yn rhan o gynhysgaeth lenyddol a llafar gyfoethog, rydym hefyd wedi canfod y stori, mewn ffordd ddigon iasol, yn gyfoes. Bydden ni wrth ein boddau cael gwybod beth yw'ch ymateb, felly croeso i chi ddod i gysylltiad neu ddod i siarad â ni ar ôl y perfformiad. Diolch o galon i'r holl unigolion a sefydliadau lu sydd wedi ein helpu yn ystod siwrnai greadigol y darn – gweler tudalen 26 am fwy o fanylion.

Gobeithiwn y byddwch yn ei fwynhau!



**Naomi Wilds** Cynhyrchydd



Michael, Lynne a Stacey yn gweithio yn Nhomen y Mur



# Cyflwyno'r *Mabinogi*

Dw i wedi hoffi gwrando ar straeon erioed, byth ers dyddiau'r teithiau misol gyda'r teulu i orllewin Cymru i ymweld â hen fodrybedd ym mhentref brodorol ac annwyl fy nhad, Pennal. Byddai'r daith yn cael ei hatalnodi gan straeon lleol wrth i rai nodweddion yn y dirwedd ddod i'r fei. Hyd yn oed heddiw, fedra i ddim mynd heibio i'r llefydd hyn heb gofio'r storïau oedd yn gysylltiedig â nhw. Ac yna, ar 'ddiwrnodau eira', pryd mai ychydig athrawon yn unig a allai wneud y siwrnai rewllyd i'r ysgol, byddai fy mhrifathro o dad yn cadw 350 o blant ifainc dan ei swyn yn neuadd yr ysgol gan adrodd straeon wrthyn nhw am Fendigeidfran, Efnysien, Pwyll, Culhwch – straeon y Mabinogi. Dim ond yn ddiweddarach, yn y Brifysgol, y dysgais i werthfawrogi'r straeon hyn yn eu gwedd Cymraeg canoloesol wreiddiol gan ddechrau deall pam mai darnau i'w perfformio oeddynt.

Felly beth yn union yw'r Mabinogion? Gwall copïo debyg iawn yw'r term am y gair *mabinogi* sy'n deillio o'r gair 'mab'; y farn gyffredinol yw mai ei ystyr gwreiddiol oedd 'ieuenctid' neu 'stori ieuenctid' ac yn y pen draw, daeth i olygu 'stori' a dim byd mwy. Er gwaethaf llawer o themâu cyffredin, nid ystyrid y straeon erioed fel grŵp organig ac yn sicr nid gwaith awdur unigol ydynt.

Ar ben hynny, yn wahanol i farddoniaeth y cyfnod, mae 'awduron' ein straeon yn ddienw, gan awgrymu nad oedd unrhyw ymdeimlad â 'pherchenogaeth' a bod y testunau'n cael eu gweld fel rhan o'r cof torfol. Mae eu gwreiddiau'n gorwedd yn y traddodiad llafar ac fel y cyfryw maent yn adlewyrchu cywaith rhwng y diwylliannau llafar a llenyddol, gan roi cipolwg diddorol i ni ar fyd y storïwr canoloesol, y cyfarwydd. Mae nodweddion perfformio megis strwythur episodaidd, ailadrodd, fformiwlâu llafar a deialog yn rhan annatod o'u gwead, yn rhannol oherwydd i'r 'awduron' etifeddu dulliau adrodd cyn-lenyddol ac yn rhannol oherwydd  mewn diwylliant lle mai ychydig iawn allai ddarllen ac ysgrifennu, byddai straeon a cherddi'n cael eu perfformio o flaen cynulleidfa o wrandawyr; hyd yn oed pan fyddai testun yn cael ei gofnodi ar femrwn, gallwn gymryd y byddai'r memrwn yn dod yn 'rhyngweithiol' gan fod diffyg llythrennedd cyffredinol yn mynnu darlleniadau cyhoeddus.

Gyda Phedair Cainc y Mabinogi, rydym mewn tirwedd ddaearyddol gyfarwydd a chymdeithas sydd yn ôl pob golwg yn cyn-ddyddio unrhyw ddylanwad Normanaidd. Yn wir, mae'r digwyddiadau yn cael eu lleoli yn y Gymru gyn-Gristnogol lle mai ffigyrau mytholegol yw'r prif brotaganyddion. Er ei bod yn amheus a oedd eu harwyddocâd yn cael ei ddeall gan gynulleidfa ganoloesol, mae'r themâu mytholegol yn esgor ar straeon rhyfeddol: teithiau i baradwys arallfydol lle mae amser yn sefyll yn ei unfan a lle nad yw meidrolion yn heneiddio; y pair dadeni sy'n dod â rhyfelwyr marw yn fyw ond sy'n cipio eu lleferydd; trawsffurfio lle mae gwraig anffyddlon yn cael ei throi'n dylluan. Ond mae'r rhain yn fwy na dim ond straeon hud a lledrith llawn tyndra a chyffro. Roedd holl straeon y Mabinogi'n cyflwyno penblethau moesegol i'w cynulleidfa ynglŷn â materion moesol, gwleidyddol a chyfreithiol. Nid oes unman lle mae hyn yn fwy amlwg nag ym Mhedair Cainc y Mabinogi – y rhain sy'n cyfleu'n fwyaf effeithiol yr ymddygiad moesol priodol sy'n hanfodol i gymdeithas oroesi.

Yn briodol ddigon, mae'r *Mabinogi* yn cael ei ystyried yn glasur. Mae'n arbennig o berthnasol bod diddordeb cynyddol yn y straeon ymysg y gymuned chwedleua heddiw. Ni wyddom fawr iawn am sut y byddent wedi cael eu perfformio – a fuasai cyfeiliant cerddorol, er enghraifft. Mae dehongliad cyfareddol Adverse Camber o'r Bedwaredd Gainc yn rhoi i ni gipolwg ar y byd canoloesol hwnnw gan ddangos sut gall y testun ysgrifenedig ddod yn fyw mewn profiad gwirioneddol theatraidd.

**Sioned Davies**

Am gyfieithiad Saesneg o'r straeon ynghyd â chyflwyniad a nodiadau, gweler Sioned Davies, *The Mabinogion* (Gwasg Prifysgol Rhydychen, 2007).

Am fersiwn o'r testun mewn Cymraeg gyfoes, gweler Y Mabinogion gan Dafydd a Rhiannon Ifans a gyhoeddwyd gan Gomer.

Darllenwch fwy am sylwadau Sioned ar y Bedwaredd Gainc ar **www.adversecamber.org**



*Bum yn wenfflam*
*ac wedyn llwch tu*
*hwnt i bob dolur*

I was gleaming fire
and then dust
beyond all pain

***o Lyfr Du Caerfyrddin***


# Ffynonellau Ysbrydoledig

Dechreuodd ***Breuddwydio Cae'r Nos*** mewn sgyrsiau yn ystod taith ***Hunting the Giant's Daughter***, sioe flaenorol yr artistiaid hyn gyda'i gilydd. Soniwyd am Bedwaredd Gainc y Mabinogi ac roedd yn gwrthod gollwng ei gafael.

Daeth y cynlluniau'n fyw yn dilyn prosiect ysbrydoledig Y Mabinogi yng Ngŵyl Chwedleua Aberystwyth yn 2015 a guradwyd gan Peter Stevenson. Roedd y prosiect yma'n cynnwys tor o ddoniau cymuned cyfarwyddiaid Cymru'n adrodd pob un o bedair cainc y Mabinogi, mewn dau grŵp o dair dynes a dau grŵp o dri dyn, â hynny dros undydd yn unig.

Yn dilyn hyn, treuliodd yr artistiaid amser gyda'r cyfarwyddwr Paula Crutchlow, y storïwr Dafydd Davies Hughes, yr artist Maria Hayes, y cynllunydd Sophia Clist a'r arbenigwraig lais Pauline Down a hefyd yn y Felin Uchaf ar Benrhyn Llŷn, gan ymweld â safleoedd lle digwyddodd y stori, yn gwneud gwaywffyn a rhannu cerddoriaeth a straeon.  Darnau o hen farddoniaeth Gymraeg yn gymysg â deunyddiau crai haearn a gwlân defaid. Bu llinellau ar ddalennau papur yn cysylltu'r holl anifeiliaid, planhigion a phryfaid yn y testunau gwreiddiol. Bu plastig a broc môr yn gwthio am eu lle gyda darnau o farddoniaeth, swynion a'r traddodiad canu salmau – canu pwnc.

Asiwyd y dylanwadau hyn â gwaith gwreiddiol yr artistiaid gan waith creadigol yn Aberystwyth, Caerdydd, Merthyr Tudful ac yn ôl yn y Felin Uchaf. Mae'r darn yn parhau i gael ei weithio yn y pair wrth gael ei berfformio.



**Gwaith creadigol yn y Felin Uchaf**
**Llun: Chris Webb**



*Nid unffurf yw'r byd*

***o Lyfr Du Caerfyrddin***

# Cerddoriaeth *Breuddwydio Cae'r Nos*

Mae Stacey Blythe a Lynne Denman yn canu gyda'i gilydd yn Ffynnon ers dros 20 mlynedd, gan dynnu ar y seiliau cydgordiol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn nhraddodiadau Ynysoedd Prydain, wedi'u cymysgu â bwrlwm dylanwadau jazz a'r felan. Y gweadau hyn yw'r sbardun i gyfansoddiadau gwreiddiol hiraethlon Stacey sy'n creu'r dirwedd glywedol arbennig sydd weithiau'n aflonyddu y mae'r stori yma am frad, dial, serch ac anrhydedd yn cael ei chyflwyno drwyddi.

Fe wnaeth rhai o'r cynhwysion cerddorol ar gyfer y darn yma lamu allan o'r eiliad y dywedon ni 'Pedwaredd Gainc y Mabinogi'. Cân werin Gymraeg yw'r un agoriadol, 'Mae'r ddaear yn glasu', sy'n sôn am rym natur. I mi, ceir adlais ohoni yn y stori pan fydd Blodeuwedd yn gweld Gronw am y tro cyntaf wrth edrych draw tua'r coed.



Cân arall y bu'n rhaid i ni ei chynnwys oedd Breuddwyd, cân gan Lynne, a recordiwyd ar drydydd albwm Ffynnon, Adar Gwylltion. Teimlai 'Y Gwŷdd' yn berffaith ar gyfer yr ennyd pan fydd chwedleua hudol Gwydion yn bwrw swyn dros filwyr llys Pryderi.

Daeth elfennau eraill i'r fei wrth i ni weithio. Traddodiad llafarganu salmau yn y capeli yw Canu Pwnc a glywir o hyd ym Mynachlog-ddu yn y Sir Benfro. Yn ailadroddus ac yn fesmereiddiol, bu ei arddull yn dylanwadu ar ein holl swynion ar gân lle mae sylweddau'n cael eu trawsffurfio drwy hud a lledrith o'r naill siâp i'r llall. Ymdrinnir â phob swyn yn wahanol gan fod y sefyllfa yn y stori'n unigryw bob tro. Cenir ymadrodd o Lyfr Du Caerfyrddin bob tro y ceir trawsffurfiad. Mae mesurau barddonol megis yr englyn gyda'i holl gynghannedd yn cael eu gosod i gerddoriaeth wreiddiol hefyd.

Weithiau, mae cerddoriaeth yn atgyfnerthu'n gynnil gysylltiadau neu wahaniaethau rhwng cymeriadau. Ceir cymysgedd o alawon telyn traddodiadol Cymreig a gwreiddiol i Math a Gwydion. Gwydion biau'r slip jig; mae yn yr un cywair ag alaw Math gan eu bod yn perthyn, ond mae alaw Gwydion yn droellog ac yn drawsacennog. Mae'r ddwy alaw yn cydblethu â'i gilydd yn gerddorol, fel y gwna'r cymeriadau'n ddramatig. Wals urddasol, syber yw fy nhrefniant ar gyfer arwydd-dôn Arianrhod, sy'n adlewyrchu ei hannibyniaeth gadarn, wedi'i sefydlu yn ei llys a'i bywyd ei hun.

Ceir adrannau sy'n bwriadol wthio wrth yr ymylon, gan beri i'n clustiau geisio adfer yr anghytgord sy'n adlewyrchu rhai o'r elfennau mwyaf anghyfforddus yn y stori nad ydynt chwaith yn cael eu datrys.

Un o'n hegwyddorion arweiniol fu cydraddoldeb rhwng y tri ohonon ni – mae yna adegau pan fydd Lynne yn cymryd drosodd y chwedleua mewn cân, neu pan fydd rhythmau drwm Michael yn gyrru'r digwyddiadau yn ei flaen, neu le dw inna'n newid y dirwedd gyda'r hyn dw i'n ei chwarae. Yn union fel y buon ni'n arbrofi gyda gwneud haearn o ddeunyddiau naturiol yn y Felin Uchaf, felly yr ymddangosodd ein themâu a dewisiadau cerddorol wrth i ni barhau i weithio â nhw. Yn gerddorol, dw i'n dal i gadw ambell ennyd yn rhydd ar gyfer byrfyfyrio yn ein perfformiadau byw sy'n golygu bod y sioe'n hollol unigryw i bob canolfan.

**Stacey Blythe**

Mae *Breuddwydio Cae'r Nos* yn llawn hud a lledrith, eithafion a throadau o bob math, fel y mae ei chymeriadau – dyma bwt bach am rai ohonynt:

## GOGLEDD CYMRU/GWYNEDD

**Math fab Mathonwy** yw arglwydd Gwynedd a chydag ef y mae'r stori'n dechrau. Brenin teg a chyfiawn yw Math. Mae ganddo hefyd bwerau hud a lledrith.

Menyw ifanc yw **Goewin** sydd â rôl arbennig yn llys Math, sef sicrhau nad yw traed y brenin yn cyffwrdd â'r ddaear ac eithrio ar adeg rhyfel. Dim ond gwyryf sy'n gallu cyflawni'r rôl yma.

Pen-dewin yw **Gwydion**, nai i Math, a dywedir mai ef yw'r cyfarwydd gorau a fu erioed yn hanes y byd. Rhoddir iddo'r dasg o gerdded ffiniau'r deyrnas i sicrhau bod popeth yn iawn. Mae o'n gwneud hynny yng nghwmni ei frawd Gilfaethwy, oherwydd ni chaiff traed Math gyffwrdd â'r ddaear.

Brawd Gwydion yw **Gilfaethwy**. Yn ddistaw bach, mae wedi mopio efo Goewin ond yn ofni dweud dim am hyn rhag ofn i Math gael gwybod.

Menyw rymus ac annibynnol yw **Arianrhod** sy'n byw yn ei chastell ei hun i ffwrdd o lys Math. Mae'n ceisio ei chadw'i hun ar wahân ond mae'n cael ei thynnu'n ôl i ddigwyddiadau'r stori. Chwaer Gwydion a Gilfaethwy yw hi.

Mae **Lleu Llaw Gyffes** yn cael ei eni o dan amgylchiadau rhyfedd a lledrithiol yn ystod y stori. Mae'n perthyn i Gwydion ac Arianrhod. Arwr adnabyddus ym mytholeg Cymru yw Lleu, yn rhyfelwr ac yn ddewin. Mae llawer o leoedd yng Nghymru wedi'u henwi ar ei ôl.

*Mab sydd*
*yn disgwyl*
*beunydd cael*
*nef ar ddaear*
*newydd*

**O'r Gwŷdd**

If anyone asks
who has written
these verses,
tell them it is
one who daily
looks for heaven
on a new earth

**From Y Gwŷdd**

Menyw sydd wedi'i gwneud o flodau yw **Blodeuwedd** i fod yn wraig i Lleu. Ei stori hi yw un o'r elfennau sy'n cael eu hailadrodd a'u darlunio fynychaf o'r Bedwaredd Gainc.

Uchelwr a heliwr yw **Gronw Pebr** sy'n byw ger Tomen y Mur lle mae llys Lleu a Blodeuwedd.

## DE CYMRU/DYFED

**Pryderi** yw arglwydd Dyfed ac yn un o brif gymeriadau tair cainc arall y Mabinogi. O anturiaethau ei dad yn Annwn a adroddwyd gynt yn y stori, mae gan Pryderi anifeiliaid nad oes neb arall wedi'u gweld yng Nghymru, sef moch, sydd â blas anhygoel arnynt yn ôl pob sôn.

# Pam yr holl ffyn?

Yn ystod dyddiau cynnar gweithio ar *Breuddwydio Cae'r Nos* buon ni'n sôn am gael elfennau ar y llwyfan a allai symud o gwmpas a bod yn dri dimensiwn gan gysylltu'r perfformwyr â'r gynulleidfa yn hytrach na'u gwahanu oddi wrth ei gilydd. Nid cefnlen yn unig, felly. Ond beth?

Yng nghartre Lynne, unwaith i mi orffen syllu ar yr olygfa hardd sydd ganddi o Ddyffryn Teifi, dechreuais i fodio drwy un o lyfrau Andy Goldsworthy sydd ganddi a tharo ar luniau o'i waith gyda'r cwmni dawns o Ffrainc, Ballet Atlantique, lle bu'r dawnswyr yn ymgorffori coed yn eu gwaith a dyma fi'n meddwl: "Pam lai?'

Yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, mi wnes i chwarae mig am hanner awr a llenwi'r car gyda chymaint o frigau ag y gallwn i ac oherwydd y tywydd gwlyb ar y pryd, mi lwyddais i gasglu llawer mwy o natur na bwriadais i'n wreiddiol.

Yn rhyfedd ddigon, wnaeth neb gymryd y mymryn lleia o sylw wrth i mi halio'r pentwr yma o goed mwsoglyd, drewllyd a gwlyb i'r stiwdio gron hyfryd yng Nghanolfan y Celfyddydau. Fe wnaethon ni chwarae gyda'r ffyn am oriau gan wybod eu bod yn fêts chwarae da, ond doedden ni wir ddim yn gyfarwydd ag unrhyw gemau da (na diogel!) gyda ffyn.

A dyma'r artist gweledol a dofwraig ffyn Sophia Clist yn dod i'n hachub ni. Corlannodd ffyn i'r buarth ger ei hen ffermdy ar Dartmoor a chyda'r artist-gwneuthurydd Barnaby Stone, impiodd ganghennau ar ei gilydd mewn cyfuniadau newydd. Mi wnaethon ni eu gosod mewn gofodau ymarfer yng Nghaerdydd a Merthyr a fesul tipyn, daethon ni i nabod cyfeillion prennaidd y tîm mewn cyfres o ymdrechion profi a methu i roi pobl, ffyn, geiriau a cherddoriaeth at ei gilydd.

Dyw e ddim mor hawdd â mae'n swnio.  Fodd bynnag, mi ddalion ni ati ac yn ara', dechreuodd y ffyn ddod yn rhan o'r gêm ac a dweud y gwir ddechrau dangos eu hunain. Heb fawr o ymdrech i'w weld ar eu rhan nhw, a chyda 'mond ychydig o help ganddon ni, daeth y ffyn yn draeth, cadwyn o fynyddoedd ar

Ben Llŷn, milwyr marw a chlwyfedig neu'n geirw a bleiddiaid. Ac nid yn unig hynny, fe ddaethon nhw hefyd ag ehangder a dyfnder i'r emosiynau cymhleth a chroes yn y stori rydyn ni'n ceisio ei dweud. Dydyn ni byth yn ceisio darlunio dim byd - mae jyst ein bod ni'n methu ymatal rhag alldaflu tebygrwydd, agwedd, emosiwn a bwriad ar y ffyn wrth i'r stori ddatblygu.

Peidiwch â gofyn i mi sut maen nhw'n ei wneud e, y cwbwl dw i'n ei wybod yw, drwy ddod â beth sydd y tu allan dan do a threulio digon o amser gydag e, eich bod chi'n cyrraedd rhyw lefel gyfathrebu lle nad oes angen i chi ymaflyd codwm â chi'ch hun wrth geisio darganfod ffordd o fynegi'r holl hynodrwydd a chymhlethdod yn y stori oherwydd, os ydych hi'n cymryd sylw, mi welwch chi fod y ffyn yno o'ch blaen, yn egluro'r cyfan.

**Michael Harvey**

**Mae Plastigau'n Newid ein DNA** – Mae'r Cyfarwyddwr Paula Crutchlow yn ysgrifennu am sut mae ei hymchwil ym maes Daearyddiaeth Ddiwylliannol i argyfwng byd-eang llygredd plastig wedi dylanwadu ar ei gwaith ar Breuddwydio Cae'r Nos. Darllenwch fwy am hyn ar **www.adversecamber.org**



# Michael Harvey



Mae Michael Harvey yn cael ei gydnabod yn eang fel un o chwedleuwyr cyfoes blaenllaw'r DU.  Yn byw yng Nghaerdydd, mae Michael yn adrodd straeon traddodiadol o Gymru, y gwledydd Celtaidd a thu hwnt, gan ymddangos yn rheolaidd mewn gwyliau rhyngwladol mawr ym Mhrydain, Ewrop, Gogledd a De America. “Mesmereiddiol” yw gair y *Sunday Times* i ddisgrifio ei chwedleua ac yn ddiweddar, mae wedi derbyn un o wobrau nodedig Cymru Greadigol Cyngor Celfyddydau Cymru.

Bydd Michael yn aml yn cydweithio ag artistiaid o wahanol ddisgyblaethau a gwledydd i greu gwaith arloesol newydd ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Mae galw cynyddol arno fel hwylusydd ar gyfer chwedleuwyr perfformio ac mae’n arweinydd gweithdai dyfeisgar mewn ysgolion. Mae Michael hefyd wedi ysgrifennu nifer o lyfrau a llyfrau sain.

**www.michaelharvey.org**



# Lynne Denman

Mae repertoire Lynne Denman yn cynnwys caneuon sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn nhraddodiadau, rhythmau, ieithoedd a thirweddau'r gwledydd Celtaidd. Mae Lynne wedi canu caneuon Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg  newydd a thraddodiadol ar gyfer cynulleidfaoedd ar bum cyfandir. Mae'n recordio ac yn teithio fel un o aelodau sefydlu'r ensemble gwerin Ffynnon.  Yn ddehonglydd treftadaeth dawnus, bu Lynne yn ymchwilio ynghyd â chyfansoddi a pherfformio cerddoriaeth ar gyfer prosiect mawr yng ngogledd Cymru: Tywysogion Gwynedd.

**www.ffynnon.org**

# Stacey Blythe

Cyfansoddwraig a pherfformwraig sydd wedi'i hyfforddi'n glasurol yw Stacey Blythe ac mae wedi cyfansoddi a pherfformio gydag Opera Genedlaethol Cymru, Theatr Ddawns Genedlaethol Cymru, Y Rubicon, Theatr Ffynnon, Cerddorfa Genedlaethol Cymru, Gŵyl Gelfyddydau Abertawe, Gŵyl y Gwneuthurwyr Cadwyni, Gŵyl Gelfyddydau Gogledd Cymru a National Theatre of Wales.

Mae hi'n gerddor cyswllt gyda Bale Cenedlaethol Lloegr, yn gweithio gyda Cerddoriaeth Fyw Nawr fel mentor ac yn rhedeg gweithdai mewn cerddoriaeth draddodiadol a chyfansoddi caneuon yn ogystal ag ar gyfer y delyn, acordion a'r llais.

Mae'n perfformio ar ei phen ei hun yn ogystal â gyda Ffynnon ac Elfen, wedi perfformio ar yr Orient Express, wedi chwarae i Stephen Sondheim ac wedi canu gyda Billy Bragg a Michelle Shocked. Mae wedi chwarae (gyda'i myfyrwyr o CBCDC) ar gyfer Elizabeth Taylor, Shirley Bassey a Thywysog Cymru ym Mhlas Buckingham.

Mae Stacey yn gyfarwyddwr cerdd ac yn hyfforddwraig ganu a repertoire yn yr Ysgol Ddrama yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

**www.staceyblythe.com**



*Ynteu Wydyon*
*goreu kyuarwyd*
*yn y byt oed.*

And Gwydion was the best storyteller in the world.

*Hudodd gwch*
*hudodd hwyliau*

*Hudodd ledr*
*hudodd garrai*

He conjured a magical boat and shoes out of seaweed



# Y Tîm Creadigol

## Cyfarwyddwr: Paula Crutchlow

Artist annibynnol a gwneuthurydd perfformiadau yw Paula Crutchlow sy'n gweithio fel cyfarwyddwr a dramodydd gyda storïwyr, cerddorion, artistiaid dawns a phrosiectau ysgrifennu newydd ers dros ugain mlynedd. Ochr yn ochr â hyn, mae ei gwaith gyda'r gydweithfa artistiaid Blind Ditch yn creu digwyddiadau cydweithredol ac annisgwyl mewn gofodau pob dydd, gan ddefnyddio'n aml ddulliau cyfranogol a chyfryngau digidol i ymgysylltu â'r cyhoedd fel dinasyddion sy'n meddwl a gwylwyr sy'n cyfrannu. Ar hyn o bryd, Paula yw'r Cynghorydd Artistig ar gyfer Adverse Camber ac mae'n aelod o fwrdd gŵyl gelfyddydau amlgyfrwng B-side. Fel ysgolhaig ac addysgwraig, roedd yn Ddarlithydd Cyswllt mewn Theatr yng Ngholeg Celfyddydau Dartington yn Nyfnaint rhwng 2001 a 2010 ac mae hi bellach yn Ymchwilydd Doethurol wedi'i ariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol mewn Daearyddiaeth Ddiwylliannol ym Mhrifysgol Caerwysg.

**www.blindditch.org**

## Cynllunydd: Sophia Clist

A hithau o gefndir ym maes cerfluniaeth, mae Sophia yn creu gosodweithiau, setiau a gwrthrychau i berfformwyr a chynulleidfaoedd fyw ynddynt, eu trafod a'u trawsnewid. Mae llawer o'i gwaith yn gydweithredol ac yn rhyngweithiol ac mae'n cydweithio ag artistiaid yn y ddawns, theatr, cerddoriaeth, ffilm a'r cyhoedd.

Mae ei gwaith diweddar yn cynnwys Parallelist – Clay Gold a Laura Moody; Stretch yng Nghadeirlan Caerwysg – Sophia Clist gyda Nick Burge; The Flying Lovers of Vitebsk – Theatr Kneehigh; Get Happy – Told by an Idiot; 16 Singers – Katherine Morley; Life Forces – Jane Mason; In This Place – Theatr Pentabus a Hands Full a Phenomenal People – Fuel. Rhwng 1998 a 2008, Artist Cyswllt oedd Sophia i Theatre-Rites, gan gynllunio sioeau teithiol a safle-benodol ar gyfer cynulleidfaoedd ifainc. Roedd Sophia ar restr fer Prosiect Ymchwil Coreograffig Jerwood II yn 2016.

**www.sophiaclist.co.uk**

# Cynllunio Goleuo a Sain: Gethin Stacey

Mae Gethin Stacey yn rhedeg Sound Hire Wales, gan ddarparu sain a goleuo o ansawdd rhagorol i ddigwyddiadau mawr a mân ar draws y DU. Dyma ei bedwerydd cynhyrchiad gydag Adverse Camber, yn cynllunio sain a goleuo ymatebol. Mae Sound Hire Wales â'i gartref yng Nghaerfyrddin, yn darparu offer a wneir yng Nghymru ac yn gweithio gyda pheirianwyr sain dwyieithog.

**www.soundhirewales.co.uk**

# Cynhyrchydd: Naomi Wilds

Sefydlodd Naomi Wilds Adverse Camber yn 2006 ac mae wedi cynhyrchu teithiau cenedlaethol y cwmni hyd yn hyn, gan godi arian sylweddol at ddatblygu artistiaid, cynulleidfaoedd a'r cwmni ei hun ac yn ehangu tîm Adverse Camber yn ystod y blynyddoedd diweddar i gynnwys cynhyrchwyr cyswllt ac arbenigwyr marchnata sy'n ymroddedig i ddod â pherfformiadau rhagorol i gynulleidfaoedd ehangach a mwy amrywiol.

Yn 2009, Naomi oedd un o bedwar cynhyrchydd o ddwyrain canolbarth Lloegr i dderbyn bwrsari o Gyngor Celfyddydau Lloegr mewn cydnabyddiaeth o'i gwaith. Astudiodd Naomi Lenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Leeds gan arbenigo mewn datblygu llenyddiaeth rhwng 1999 a 2008 fel rhan o Rwydwaith Llenyddiaeth Dwyrain Canolbarth Lloegr.

**www.adversecamber.org**

**Cwmni cynhyrchu annibynnol yw Adverse Camber sydd â'i gartref ymhlith melinau hanesyddol Cromford yn Swydd Derby. Mae'r cwmni'n gweithredu fel catalydd, gan ddwyn artistiaid, cynulleidfaoedd, partneriaid, canolfannau a chyllidwyr ynghyd i greu perfformiadau gwefreiddiol gyda storïa a cherddoriaeth.**

Ysbrydolir Adverse Camber gan ddeunydd dychmygus y straeon llafar cyfoethog hyn, yr artistiaid sy'n gweithio gyda nhw a'r cynulleidfaoedd sy'n cael blas ar y profiad o gael eu cludo i'r bydoedd y maent yn eu consurio. Rydym yn credu mewn profiadau a rennir rhwng artistiaid a chynulleidfaoedd, felly mae cyfarfyddiadau byw wrth graidd popeth rydym yn ei wneud.

Mae pob taith Adverse Camber yn cychwyn gyda phroses greadigol, lle mae gan yr artistiaid gwreiddiol gyfle i weithio gyda chyfarwyddwr, cynhyrchydd a/neu gynllunydd sy'n gwrando ar eu dyheadau ar gyfer y darn ac yn helpu i edrych ar y posibiliadau hynny, gan ysgogi trafodaeth a chynnig eu syniadau a'u harbenigedd eu hunain.

Mae Adverse Camber yn hynod frwdfrydig am gymryd risgiau ar ran gwaith creadigol a gweithio gydag artistiaid sy'n ymestyn am orwelion newydd. Mae'r rhaglen hon yn taflu goleuni ar y deunydd crai fu'n sail i greu'r darn hwn a'r gwaith manwl sy'n cyfuno parch at draddodiadau â brwdfrydedd dros gael hyd i lwybrau newydd mewn diwylliant cyfoes.

Mae'r darn hwn wedi'i wneud yn bosibl diolch i gefnogaeth criw o bartneriaid gwirioneddol anhygoel - Felin Uchaf, menter gymdeithasol weledigaethol ar Ben Llŷn, diolch yn arbennig i Dafydd Davies-Hughes, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd a Sioned Davies a hefyd diolch i ddoniau disglair Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth /Gill Ogden a Gŵyl Chwedleua Aberystwyth / Peter Stevenson, yn ogystal â David Ambrose yng Ngŵyl Chwedleua Tu Hwnt i'r Ffin.

Diolch hefyd i Ceri Charles-Durrant, Rob Whitehead, Nick Bache, Gavin Repton a Becka Rickard yn ogystal â'r holl bobl a gefnogodd y broses greadigol drwy gyfrannu a rhoi adborth ar hyd y ffordd.

Rydyn ni'n gobeithio y byddwch yn mwynhau'r perfformiad yma ac yn ymuno â ni ar gyfer mwy o deithiau Adverse Camber yn y dyfodol. 'Hoffwch' ni a rhoi sylwadau ar Facebook, Trydar ac Instagram a chofrestru i dderbyn ein cylchlythyrau i gael y newyddion cyntaf am fwy o sioeau sy'n dod yn fuan.

Rydym yn ddiolchgar i Gyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru/Y Loteri Genedlaethol a Chyngor Celfyddydau Lloegr/Y Loteri Genedlaethol, ein canolfannau partner a phawb yn nhîm cynyddol Adverse Camber.

Tîm Adverse Camber:

Cynhyrchydd **Naomi Wilds**

Cynghorydd Artistig
**Paula Crutchlow**

Swyddogion Marchnata Cyswllt
**Jenny Babenko**
a **Palmer Squared**

Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus
**Angharad Wynne**

Cynhyrchydd Cyswllt
**Louisa Davies**

Cynhyrchwyr Cyswllt Cymru
**Sandra Bendelow**,
**Tamar Eluned Williams**

Cynhyrchydd Cynorthwyol
**Amy Marsh**

Swyddog Cyfranogi Cyswllt
**Jan Reynolds**



## www.adversecamber.org

/adversecamberstories

@adversecamber20

adversecamberontour

#legendofwales

Felin Uchaf

PRIFYSGOL CAERDYDD
CARDIFF UNIVERSITY
Ysgol y Gymraeg
School of Welsh

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

LOTTERY FUNDED
Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

Ffotograffau wedi'u tynnu yng ngogledd Cymru gyda chaniatâd caredig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Ffotograffiaeth: Chris Webb Photography

Dylunio: Tom Partridge

